# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Chwefror 2021

Amser: 09.00 - 11.53

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11065

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Y Gw. Anrh Robert Buckland MP, Llywodraeth y DU<br>Amy Rees, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>Nicholas Paines, Comisiwn y Gyfraith<br>Henni Ouahes, Comisiwn y Gyfraith<br>Sarah Smith, Comisiwn y Gyfraith |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu bod y cyhoedd wedi'u gwahardd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.24, datganodd David Melding fuddiant mewn perthynas ag Eitem 2.

## 2 Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 3

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder mewn perthynas â'i ymchwiliad i Wneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru.

## 3 Cyfiawnder yng Nghymru a chynigion i ddiwygio system dribiwnlysoedd datganoledig Cymru – sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiwn y Gyfraith mewn perthynas â'i gynigion i ddiwygio system dribiwnlysoedd datganoledig Cymru.

## 4 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 4.1 SL(5)740 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 4.2 SL(5)742 – Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 5.1 SL(5)735 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd, a gwneud cais am ymateb i'r pwynt gan Lywodraeth Cymru.  Nododd y Pwyllgor hefyd fod cynnig i ddirymu'r Rheoliadau wedi'i gyflwyno, ac y trefnwyd i'r ddadl gyfatebol gael ei chynnal ar 3 Mawrth 2021.

### 5.2 SL(5)741 – Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 28 (Parc Tredegar) i Gyffordd 24 (Coldra)) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 5.3 SL(5)743 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 5.4 SL(5)736 – Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor y byddai Llywodraeth Cymru yn gosod fersiwn newydd o'r Rheoliadau cyn bo hir.

## 6 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 6.1 SL(5)695 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 7 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i'w hadrodd i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – ystyriwyd yn flaenorol

### 7.1 SL(5)727 – Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 8 Papurau i'w nodi

### 8.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheoli Organig (Diwygio) 2021

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

### 8.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i'r Llywydd. Busnes y Senedd yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

### 8.3 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Diwygiadau i Fil Masnach y DU

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 8.4 Adroddiad Llywodraeth Cymru ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

### 8.5 Gohebiaeth ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Confensiwn Sewel

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 10 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru - trafod y dystiolaeth

Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei sesiynau gyda'r Arglwydd Ganghellor a chyda Comisiwn y Gyfraith, a thrafododd faterion allweddol a fyddai'n cael eu codi yn adroddiad gwaddol y Pwyllgor.

## 11 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cam-drin Domestig – trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cam-drin Domestig a chytunodd arno.  Nododd y Pwyllgor y byddai’r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

## 12 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 - y wybodaeth ddiweddaraf

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd.